


GwerthwchiGymru
Sell2Wales

# Sign On Cymru

## Prynwr Newydd - Cofrestru eich cyfrif gydag SOC

gwerthwchigymru.llyw.cymru

0800 222 9004

GwerthwchiGymru
Sell2Wales

## Sign On Cymru

Mae 'Sign On Cymru' yn golygu y bydd angen cael un enw defnyddiwr a chyfrinair yn unig i bob unigolyn i gael mynediad i wasanaethau cymorth busnes digidol yn y dyfodol, gan ddisodli'r system gyfredol o gael nifer o gyfrineiriau mewngofnodi gwahanol wedi'u cysylltu â phob gwasanaeth a gyrchir trwy wasanaethau digidol Busnes Cymru.

Bydd hyn yn cynnwys Busnes Cymru, BOSS, cofrestr rhanddeiliaid, cyfeirlyfr busnes, system rheoli digwyddiadau a Phorth GwerthwchiGymru.

## Sut i gofrestru ar GwerthwchiGymru gan ddefnyddio SOC

Ewch i hafan GwerthwchiGymru – **GwerthwchiGymru.llyw.Cymru**

Cliciwch **Cofrestru am ddim** - Cewch eich trosglwyddo i'r dudalen wybodaeth SOC.

Cliciwch ar **Parhau I Sign on / Cofrestru** - cewch eich trosglwyddo i'r dudalen rhyngwyneb SOC.


Cliciwch ar y linc **"Heb cyfrif? Creu cyfrif nawr"**




GwerthwchiGymru
Sell2Wales

Rhowch gyfeiriad e-bost yr hoffech ei ddefnyddio i gofrestru ar GwerthwchiGymru.


Cliciwch ar **'Anfon cod dilysu'.**





Bydd cod dilysu yn cael ei anfon at eich cyfeiriad e-bost.




Rhowch y Cod a dderbyniwyd yn y maes cod dilysu ar y ffurflen SOC a chlicio **Gwirio'r Cod**.




Rhowch eich cyfrinair newydd a chadarnhau hyn yn yr ail faes.




Cliciwch **Creu**, yna cewch eich trosglwyddo i'ch tudalen cofrestru cychwynnol.

GwerthwchiGymru
Sell2Wales

## Cofrestru

Cliciwch **Cofrestrwch fel Prynwr** – yna cewch eich trosglwyddo i dudalen cofrestru'r prynwr.




Bydd tudalen gofrestru'r prynwr yn rhoi dau ddewis i chi:


**Opsiwn un** – **ymuno â sefydliad prynu sy'n bodoli eisoes**, a fydd yn eich galluogi i ymuno â sefydliad prynu sydd eisoes wedi'i gofrestru ar GwerthwchiGymru. Os yw eich sefydliad eisoes wedi cofrestru, ewch ymlaen i'r dudalen nesaf.

**Opsiwn dau – Creu sefydliad prynu newydd**, os nad yw eich sefydliad wedi'i gofrestru ar GwerthwchiGymru, bydd angen i chi greu sefydliad prynu newydd. Ewch ymlaen i dudalen **6** am fwy o wybodaeth.


Os ydych yn ansicr a yw eich sefydliad wedi'i gofrestru, ewch ymlaen i'r dudalen nesaf.

**Opsiwn un – ymuno â sefydliad prynu sy'n bodoli eisoes**

Defnyddiwch y blwch testun i chwilio am sefydliad prynwr sy'n bodoli eisoes, ar ôl i chi ei fewnosod cliciwch **chwilio**





Cliciwch **dewis** ar eich sefydliad prynu – os na allwch ddod o hyd i'r sefydliad sydd ei angen arnoch ewch ymlaen i'r dudalen nesaf.




Os ydych yn hapus â'ch dewis, ewch ymlaen i dudalen **7**.

## Dewis dau – Creu sefydliad prynu newydd


Rhowch enw eich sefydliad prynu yn y blwch testun **Sefydliad prynu newydd**, ar ôl hynny, cliciwch **Cyflwyno**.




Unwaith i chi nodi enw eich sefydliad, bydd angen i chi lenwi'ch manylion cofrestru a chyfathrebu. Ewch ymlaen i'r dudalen nesaf.


## Manylion sefydliad

Cwblhewch y meysydd gorfodol os gwelwch yn dda.




## Manylion cyfathrebu

Cwblhewch y meysydd gorfodol, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu ar eich dewis iaith cyfathrebu.




Cliciwch ar **Cyflwyno Cofrestriad** – yna cewch eich trosglwyddo i hafan GwerthwchiGymru tra'n aros am awdurdodiad.

**Opsiwn un – Ymuno â sefydliad prynu sy'n bodoli eisoes.**

Ar ôl i chi gwblhau'r broses, bydd e-bost yn cael ei anfon at reolwr neu reolwyr prynwr eich sefydliad, bydd yn rhaid iddynt awdurdodi eich cyfrif prynwr a gosod eich lefelau mynediad.

**Dewis dau – Creu sefydliad prynu newydd**

Ar ôl i chi gwblhau'r broses, bydd e-bost yn cael ei anfon at GwerthwchiGymru / Gwerth Cymru i'w gymeradwyo, os caiff eich sefydliad ei gymeradwyo cewch eich hysbysu drwy e-bost.

Os methwch â chwblhau a safio’r proffil GwerthwchiGymru o fewn 24 awr o gofrestru, bydd eich cofrestriad "sign on Cymru" yn cael ei ddileu a bydd rhaid i chi gofrestru drwy SOC unwaith eto.

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gymorth arnoch, cysylltwch â ni ar **0800 222 9004**.